 - Mae'r Comisiwn wedi parhau â'i drafodaethau â Thollau Cartref a Thramor Ei Mawrhydi ynglŷn â'r driniaeth TAW briodol ar gyfer ffloedd arolygu a godir gan y Comisiwn a'r TAW a adenillir ar wariant cysylltiedig. Nid yw'r Comisiwn wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer canlyniad posibl y trafodaethau hynny, ond yn y cyfamser mae wedi cytuno ar driniaeth anfonebu briodol tra'n disgwyl y canlyniad terfynol (gweler Nodyn 23).

- 40 Llywir adolygiad y Rheolwr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yng nghyfarwyddiaethau ac isadrannau busnes y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol; a chan sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mrs Adrienne Fresko
Cadeirydd Gweithredol

22 Mawrth 2002

Syr Andrew Foster
Rheolwr Archwiliad

22 Mawrth 2002

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 12 i 29 o dan y Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 fel y'i hestynnwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisiau cyfrifo a nodwyd ar dudalen 15.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn Archwilio, Rheolwr Archwilio a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 5 i 6 i Ragair y cyffon, mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiwn Archwilio 1998 ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolwr Archwilio hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, wedi eu pennu yn ôl statud ac wedi'u harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf Comisiwn Archwilio 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed yn ôl y gofynion hynny, ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, neu os nad yw'r Comisiwn wedi cadw cyfrifon priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 6 i 10 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Cyngor ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth Gorfforaethol: datganiad ar y system o reoli arian yn fewnol'. Rwyf yn nodi os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail y farn archwilio

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfamiadau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn Archwilio a'r Rheolwr Archwilio wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rwyf wedi cynllunio a chyflawni fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad berthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi gan gamgymeriad, neu drwy dwyll neu anghysondeb arall a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol wrth lunio fy marn.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr busnes y Comisiwn Archwilio ar 31 Hydref 2001 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Comisiwn Archwilio 1998 a chyfarwyddiadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru; ac
- mae'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd a'r Archwilio Cyffredinol

9 Ebrill 2002

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

Y Comisiwn Archwilio ar gyfer awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gwladol yng nghymru a lloegr

Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Hydref 2001

	Nodyn	2001 £000	2000 £000
Incwm gweithredu			
Incwm ffioedd archwilio	2	135,033	125,862
Incwm arolygiadau	3	40,761	15,399
Incwm gweithredu arall	4	2,730	3,084
		<u>178,524</u>	<u>144,345</u>
Costau gweithredu			
Costau staff a'r aelodau	5	97,578	74,320
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	6	49,232	39,252
Costau gweithredol eraill	7	31,309	30,368
Costau tybiannol	1(x)	820	673
		<u>178,939</u>	<u>144,613</u>
Diffyg gweithredu gan gynnwys costau tybiannol		(415)	(268)
Ychwanegu costau tybiannol yn ôl	1(x)	820	673
Llog Net derbyniadwy	8	828	298
Costau net s'yn deillio o ymgyfreitha	9	(636)	(205)
		<u>597</u>	<u>498</u>

Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodir y symudiadau ar y cronfeydd wrth gefn yn nodyn 16.

Nid oes unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig heblaw am ganlyniad y flwyddyn.

Mae pob un o'r canlyniadau uchold yn deillio o weithrediadau parhaus.

Mantolen ar 31 Hydref 2001

	Nodyn	2001 £000	2000 £000
Asedau sefydlog	11	6,246	5,384
Asedau cyfredol			
Dyledwyr a gwaith cyfredol	12	30,112	33,009
Buddsoddiadau tymor byr		9,000	—
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		5,767	8,177
		44,879	41,186
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn			
Credydwyr a thaliadau cronedig	14	19,579	21,315
Incwm Gohiriedig	15	18,799	13,025
		38,378	34,340
Asedau cyfredol net		6,510	6,846
Asedau cyfredol net a ddefnyddiwyd		12,747	12,230
Ariannwyd drwy			
Cronfeydd Grant Wrth Gefn y Llywodraeth	16	640	720
Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn	16	12,107	11,510
Cyfanswm yr ariannu		12,747	12,230

Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mrs Adrienne Fresko
Cadeirydd Gweithredol

22 Mawrth 2002

Syr Andrew Foster
Rheolwre Archwiliad

22 Mawrth 2002

Datganiad Llif Arian parod ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben 31 Hydref 2001

	Nodyn	2001 £000	2000 £000
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol	17	<u>7,688</u>	<u>3,762</u>
Derbyniadau ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid			
Llog a dderbyniwyd		829	305
Grant cyfalaf		<u>—</u>	<u>800</u>
Mewnlif arian parod o dderbyniadau ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid		<u>829</u>	<u>1,105</u>
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol		(1,926)	(3,490)
Llog taladwy		<u>(1)</u>	<u>(7)</u>
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		<u>(1,927)</u>	<u>(3,497)</u>
Rheoli adnoddau hylifol			
Buddsoddiadau tymor byr		<u>(9,000)</u>	<u>—</u>
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod	18	<u>(2,410)</u>	<u>1,370</u>

Nodu I'r Cyfrifon

Arferion a Pholisïau Cyfrifo

1 (i) Paratoir y cyfrifon trwy'r dull cost hanesyddol ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a chyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, o dan baragraff 11(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(ii) Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion Deddfau Cwmnïau 1985, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, a'r safonau cyfrifo perthnasol cyn belled ag y mae'r gofynion hynny yn briodol.

(iii) Priodolwyd gwariant Llywodraeth Leol a'r GIG yn uniongyrchol i'r gweithgaredd perthnasol lle bo hynny'n bosibl; lle nad oedd hynny'n bosibl, priodolwyd gwariant cyffredin i bob gweithgaredd ar sail yr oriau a weithiwyd.

(iv) Codir rhenti prydles gweithredd ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

(v) Seilir yr incwm ffi gros ac incwm gweithredol arall ar werth y gwaith y gellir codir ar ei gyfer yn rhydd o TAW.

(vi) Credydir Incwm Gweithredu, p'un a yw wedi'i gynhyrchu drwy grant uniongyrchol gan y llywodraeth, ffroedd i awdurdodau neu fel arall, i'r flwyddyn gyfrifo pan wnaed y gwaith. Cariwyd Dyledwyr a Gwaith Cyfredol yn ôl eu gwerth sylweddoladwy amcangyfrifedig.

(vii) Ni thrinnir y costau net sy'n deillio o ymglyfreitha fel rhan o ddiffyg gweithredol y Comisiwn, ond fe'u dangosir ar wahân yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

(viii) Darperir ar gyfer dibrisiant ar bobun o'r asedau sefydlog wedi'i gyfrifo i ddileu cost pob ased, llai ei werth gweddillol amcangyfrifedig, mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal yn ystod ei fywyd defnyddiol disgwylidig fel a ganlyn:

Dodrefn a Ffitiadau	10 mlynedd
Offer Cyfrifiadurol	3 blynedd
Offer Swyddfa	5 mlynedd

Dilëir cyfrifiaduron pen desg unigol yn y flwyddyn brynu.

(ix) Mae'r Comisiwn yn darparu cynllun pensiwn budd-dâl penodol ar gyfer ei gyflogieion, a chaiff costau'r cynllun eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

(x) Cyfrifir Cost Dybiannol Cyfalaf yn unol ag Arweiniad y Cyfrifon a'u codi ar y Costau Gweithredol Eraill. Caiff y gost hon ei hychwanegu'n ôl i'r Canlyniad Gweithredol a'i phriodoli i wariant Llywodraeth Leol a'r NHS ar sail cronfeydd wrth gefn ym mhob gweithgaredd.

(xi) Cyfrifir ag gyfer grant y Llywodraeth a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant cyfalaf drwy Gronfa Grant Wrth Gefn y Llywodraeth. Fe'i rhyddheir i'r cyfrif Incwm a Gwariant i gyfateb â'r tâl a dynnwyd wrth ddibrisio asedau gwaelodol.

Dadansoddiad o incwm a 2 (i) Llywodraeth Leol ac Iechyd gwariant

	2001 £000	2000 £000
Llywodraeth Leol		
<i>Incwm Ffioedd (gweler ii)</i>		
Incwm Ffioedd	110,630	86,967
Incwm Grant	19,778	15,399
Incwm Arall	2,248	1,701
	<u>132,656</u>	<u>104,067</u>
<i>Gwariant</i>		
Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol	<u>132,381</u>	<u>103,315</u>
Canlyniadau Net	<u>275</u>	<u>752</u>
Iechyd		
<i>Incwm (gweler ii)</i>		
Incwm Ffioedd	45,386	38,894
Incwm Arall	482	1,383
	<u>45,868</u>	<u>40,277</u>
<i>Gwariant</i>		
Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol	<u>45,546</u>	<u>40,531</u>
Canlyniadau Net	<u>322</u>	<u>(254)</u>

(ii) Dadansoddiad o Incwm: Gwaith a wnaed gan y Comisiwn yn uniongyrchol, a thrwy waith a osodir yn allanol:

	2001 £000	2000 £000
Llywodraeth Leol:		
Archwiliad Dosbarth – ffioedd	65,387	64,262
Incwm Arolygu – ffioedd	20,983	2,750
Incwm Arolygu – grantiau	19,778	12,649
Archwiliadau a wnaed gan gwmnïau cyfrifwyr preifat	24,260	22,705
Incwm arall	2,248	1,701
	<u>132,656</u>	<u>104,067</u>
Gwasanaeth Iechyd Gwladol:		
Archwiliadau a gynhaliwyd gan yr Archwiliad Dosbarth	30,349	26,452
Archwiliadau a gynhaliwyd gan gwmnïau cyfrifwyr preifat	15,037	12,442
Incwm arall	482	1,383
	<u>45,868</u>	<u>40,277</u>

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfran o'r incwm archwilio i ariannu ei ddyletswyddau statudol a'i weithgareddau canolog eraill. Ar gyfartaledd daw 9.6% o'r incwm ffioedd archwilio o'r Archwiliad Dosbarth a'r cwmnïau cyfrifwyr preifat. Yn ogystal cafodd y Comisiwn £4.5 miliwn o'r Archwiliad Dosbarth sy'n adlewyrchu derbyniad ar fuddsoddiad oddi wrth ei asiantaeth archwilio yd braich.

Dadansoddiad o incwm a 2 (iii) Dadansoddiad o Fathau o Archwiliadau ac Arolygiadau gwariant

	2001 £000	2000 £000
Incwm		
Adran 28	18,841	16,860
Adran 29	—	—
Adran 35	14,944	14,273
Adran 36	2	—
	<u>33,787</u>	<u>31,133</u>
Gwarged/(Diffyg)		
Adran 28	63	58
Adran 29	—	—
Adran 35	50	49
Adran 36	—	—
	<u>113</u>	<u>107</u>

Mae'r adrannau hyn yn adlewyrchu'r gwaith lle mae'n ofynnol i'r Comisiwn godi ffioedd a fydd yn talu am y gost lawn o ddarparu'r gwasanaeth:

Adran o Ddeddf**Comisiwn Archwilio****1998****Disgrifiad**

28	Ardystio ceisiadau neu dderbyniadau a wnaed gan awdurdod.
29	Archwiliadau ychwanegol a wnaed gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol
35	Astudiaethau sydd â'r nod o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a wnaed ar gais y corff dan sylw
36	Astudiaethau sydd â'r nod o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a wnaed ar gais cryff addysg penodol.

(iv) Incwm a gynhyrchwyd yng Nghymru

	2001 £000	2000 £000
Gan awdurdodau lleol – Archwilio	7,151	6,987
Gan awdurdodau lleol – Ffioedd arolygu	1,284	—
Gan awdurdodau lleol – Grant arolygu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	1,713	1,043
Gan Gryff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	2,389	2,273
	<u>12,537</u>	<u>10,303</u>

Incwm arolygu

- 3 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 bydd archwilwyr a benodir gan y Comisiwn yn archwilio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau awdurdodau lleol a'r Comisiwn fydd yn gyfrifol am arolygu cydymffurfiad awdurdodau â gofynion y Ddeddf.

Mae grantiau ar gael i'r Comisiwn ar gyfer gwaith Arolygu ar awdurdodau gwerth gorau, ac yn ystod y cyfnod cafodd nifer o grantiau gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd yn ystod 1999–2000 ariannwyd gwaith ar gynlluniau gwerth gorau ar gyfer awdurdodau'r Heddlu yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref.

	2001 £000	2000 £000
Incwm Ffioedd	20,983	2,750
Incwm grant		
Yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau	18,065	10,626
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1,713	1,043
Y Swyddfa Gartref	—	980
	40,761	15,399

Cyn Mehefin 2001, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a ddarparodd y grantiau a ddarperir gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

Incwm gweithredu arall 4

	2001 £000	2000 £000
Costau cyfreithiol a ad-dalwyd	606	777
Cyhoeddiadau a Chynadleddau	517	1,035
Menter twyll genedlaethol	303	—
Secondiadau a mân incwm	1,304	1,272
	2,730	3,084

Costau staff ac aelodau'r comisiwn 5

	2001 £000	2000 £000
(i) Costau'r staff		
Cyflogau'r staff	70,629	55,721
Cyflogau'r aelodau	157	139
Cost ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill	663	—
Costau Nawdd Cymdeithasol	5,939	5,178
Costau pensiwn eraill	9,575	5,538
Cost prydlesu ceir	5,640	3,665
Costau teithio a chynhaliaeth y staff	4,952	4,057
Costau teithio a chynhaliaeth yr aelodau	23	22
	97,578	74,320

Costau staff ac aelodau'r 5 (ii) Penodiadau'r Prif Weithredwr ac uwch reolwyr comisiwn

Manylion contractau tymor penodol	Tymor swydd	Contract yn dod i ben
Syr Andrew Foster, Rheolwr Archwiliad	3 blynedd	28/2/2002 (Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd)
Martin Evans, Cyfarwyddwr Polisi Archwilio a Phenodiadau		Contract parhaol
Terry Hanafin, Cyfarwyddwr Ymchwil Gwasanaethau	2 flynedd ac 8 mis	31/5/2002
Trish Longdon, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl		Contract parhaol
Alan Meekings, Prif Weithredwr, Archwiliad Dosbarth of 5/3/2001	3 blynedd	4/3/2004
David Prince, Cyfarwyddwr Gweithrediadau	3 blynedd	1/10/2003
Joanne Shaw, Cyfarwyddwr Datblygu Perfformiad (rhan-amser)	1 flwyddyn	4/1/2002
John Sherring, Prif Weithredwr, Add hyd 4/3/2001		Contract parhaol
Wendy Thomson, Cyfarwyddwr Arolygiadau hyd 9/7/2001	3 blynedd	5/9/2002
Peter Wilkinson, Cyfarwyddwr Iechyd		Contract parhaol

O 9 Gorfennaf 2001, gweithredodd Syr Andrew Foster mewn rôl ddeuol fel Rheolwr Archwiliad a Chyfarwyddwr Arolygiadau. Mae Wendy Thomson a Terry Hanafin wedi'u seondio i sefydliadau eraill ar hyn o bryd; ac mae Joanne Shaw bellach wedi gadael y Comisiwn.

(iii) Manylion cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr

	2001		Buddian- nau Eraill	Cyfraniad Pensiwn	cyfanswm 2000 (heb gynnwys cyfraniad pensiwn)
	Cyflog	Perfformiad			
	£	£	£	£	£
Syr Andrew Foster	158,068	33,673	6,866	11,831	177,086
Martin Evans	82,000	13,201	8,272	11,804	99,549
Terry Hanafin	104,923	13,219	551	11,831	109,646
Trish Longdon	84,825	14,400	3,588	12,047	94,666
Alan Meekings o 5/3/01	71,427	7,550	1,115	7,976	—
David Prince	125,463	19,990	5,774	11,831	129,093
Joanne Shaw	50,260	8,370	4,235	7,188	58,736
John Sherring hyd 4/3/01	38,706	4,932	2,020	5,272	—
Wendy Thomson hyd 9/7/01	80,020	11,048	450	8,136	123,364
Peter Wilkinson	97,659	14,025	7,704	11,831	118,664

Mae pob aelod o staff y Comisiwn yn gymwys i gael tâl ar sail perfformiad. Fe'i hasesir yn hanner blynyddol yn erbyn targedau a bennir ymlaen llaw, ac fe'i telir ar ffurf ôl-daliad.

Gweithredodd John Sherring fel Prif Weithredwr yr AD ar gyfer y cyfnod rhwng 2 Tachwedd 2000 a 10 Mawrth 2001.

Mae 'Buddiannau Eraill' yn cynnwys darparu car yn bennaf.

Costau staff ac aelodau'r 5 (iv) Manylion ynglŷn â hawl y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr i pensiwn comisiwn

	Oedran ar 31 Hydref 2001	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn yn 60 £	Cyfanswm y pensiwn a gronwyd ar 31 Hydref 2001 £	Cyfanswm y pensiwn a gronwyd ar 31 Hydref 2000 £
Syr Andrew Foster	56	3,637	65,672	60,053
Martin Evans	45	1,368	19,895	17,935
Terry Hanafin	52	1,200	41,734	1,258
Trish Longdon	49	1,640	29,975	27,430
Alan Meekings	51	787	787	—
David Prince	53	6,796	51,444	43,221
Joanne Shaw	38	727	3,784	2,959
John Sherring ar 4/3/01	53	4,658	44,885	40,226
Wendy Thomson ar 9/7/01	48	1,325	20,357	18,803
Peter Wilkinson	48	1,267	13,653	11,991

Mae'r aelodau hyn o'r staff yn aelodau o gyllun pensiwn budd-dâl diffiniedig y Comisiwn ac maent wedi cronni budd-daliadau yn ystod y flwyddyn yn y cynllun hwnnw.

Mae cyfanswm y pensiwn a gronwyd a ddangosir uchod yn dangos y swm a gâi ei dalu yn 60 oed yn seiliedig ar eu gwasanaeth hyd 31 Hydref 2001.

Ar 31 Hydref 2001, penderfynodd Alan Meekings, drosglwyddo ei hawl o gynllun arall, ond nid oedd Cynllun Pensiwn y Comisiwn Archwilio wedi cael gwerth y trosglwyddiad eto.

(v) Manylion cydnabyddiaeth y Comisiynwyr

	2001 £	2000 £
Mr R A Arthur	7,128	6,917
Ms J Baddeley	7,128	6,917
Mr J Bowen	1,203	—
Dr J Curson	7,128	6,350
Ms E Filkin	7,128	6,917
Mr J R Foster OBE	7,128	6,917
Mrs A Fresko	15,057	6,917
Syr Graham Hart	7,128	6,917
Dr P Lane	6,545	—
Mr G Lemos	6,545	—
Mrs R Lowe	4,722	6,917
Mr D Moss	4,212	—
Y Athro S Richards	7,128	6,917
Y Fonesig Helena Shovelton DBE	34,455	33,462
Mr N Skellett	6,545	—
Mr C Swinson	6,545	—
Syr Ron Watson CBE	7,128	6,917
Syr David Williams CBE	7,128	6,917
Mr B Wolfe	7,128	6,917
Mr J Orme	—	7,653
Mr P Soulsby	—	6,917
Mrs I Tarry	—	6,917
Ms H Rowland	—	1,417

Costau staff ac aelodau'r comisiwn 5 Caiff y Comisiynwyr gyflog sy'n seiliedig ar yr amser y maent yn ei roi, wedi'i fynegi yn nhermau sawl diwrnod y mis.

Yr amser a roddir fel arfer yw:

	Sawl diwrnod y mis
Cadeirydd	6
Dirprwy Gadeirydd	4
Comisiynydd	2

Ni chaiff y Comisiynwr dâl ar sail perfformiad, ac nid ydynt yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Comisiwn Archwilio ychwaith.

(vi) Roedd nifer y staff a gyflogwyd bob mis ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

	2001	2000
Archwiliad Dosbarth – staff archwilio	1,083	1,044
– staff archwilio dan hyfforddiant	146	128
– staff cymorth	182	185
Gwasanaeth Arolygu – staff arolygu	262	58
– staff cymorth	62	15
Cyfarwyddiaethau'r Comisiwn	345	315
Staff a secondiwyd	11	7
	<u>2,091</u>	<u>1,752</u>
Mewn swydd ar 31 Hydref	<u>2,271</u>	<u>1,885</u>

Gwasanaethau a brynwyd i mewn

	2001	2000
	£000	£000
Ffioedd archwilio i gwmnïau cyfrifwyr preifat	35,818	32,147
Archwiliad Dosbarth	6,191	5,398
Gwasanaethau Arolygu	5,508	844
Cyfarwyddiaethau'r Comisiwn	1,715	863
	<u>49,232</u>	<u>39,252</u>

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau a brynwyd i mewn gan y Comisiwn Archwilio sy's ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau Arolygu neu ymchwil y Comisiwn.

Costau gweithredu eraill	7	2001	2000
		£000	£000
Adeiladau			
– rhent		3,171	2,956
– costau eraill		2,639	2,094
Cyflenwadau a gwasanaethau		11,642	11,444
Recriwtio a throsglwyddo staff		3,762	3,686
Hyfforddiant		2,767	2,550
Dibrisiad (net o grant cyfalaff)		1,242	900
Ffi archwilio		87	71
Ffioedd proffesiynol		2,237	2,596
Cyhoeddiadau		837	1,088
Costau		2,645	2,764
Dyledion a ddilewyd neu y darparwyd ar eu cyfer		280	219
		31,309	30,368

LLog net derbyniadwy	8	2001	2000
		£000	£000
LLog derbyniadwy		829	305
LLog taladwy		(1)	(7)
		828	298

Costau net sy'n deillio o ymglyfreitha	9	2001	2000
		£000	£000
Gwasanaethau Ymglyfreitha		636	205

Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn ymwneud â'r costau cyfreithiol yr aethpwyd iddynt gan yr archwilydd yn yr apêl yn erbyn ei ddyfarniad ar Wrthwynebiadau i Werthiannau Dynodedig Westminster. Dyfarnwyd yr achos yn y Llys Adrannol ym mis Rhagfyr 1997, a chan y Llys Apeliadau ym mis Mai 1999. Yn nyfarniad y Llys Adrannol dyfarnwyd costau yn erbyn yr archwilydd, sydd wedi'u talu. Apeliwyd yn erbyn agweddau penodol ar ddyfarniad y Llys Apeliadau i Dŷ'r Arglwyddi. Caniatawyd apêl yr Archwilydd yn unfrydol gan Dŷ'r Arglwyddi ym mis Rhagfyr 2001. Ym mis Ionawr 2002, roedd y Comisiwn yn disgwyl penderfyniad yr Arglwyddi ynglŷn â'r costau i'w dyfarnu yn yr achos hwnnw.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Comisiwn dalu costau ychwanegol yn yr achos hwn ond yn dilyn penderfyniad gan Dŷ'r Arglwyddi ar y costau i'w dyfarnu mae'n bosibl y bydd modd adennill rhai symiau. Nid oes digon o sail ar gyfer llunio amcangyfrif rhesymol ar hyn o bryd. Gweler Nodyn 23.

Trethiant	10	
		Mae'r Comisiwn wedi'i eithrio rhag treth incwm a threth gorfforaeth drwy rinwedd Adran 519 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1998, a rhag treth enillion cyfalaf drwy rinwedd Adran 271 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992.

Asedau sefyldog

11

	Dodrefn a Ffitiadau £000	Ofer Cyfrifiadurol £000	Offer Swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost				
Ar 1 Tachwedd 2000	5,868	1,705	1,273	8,846
Pryniadau	1,200	856	187	2,243
Gwaredion	(238)	—	(79)	(317)
ar 31 Hydref 2001	<u>6,830</u>	<u>2,561</u>	<u>1,381</u>	<u>10,772</u>
Dibrisiad				
Ar 1 Tachwedd 2000	1,759	977	726	3,462
A ddarparwyd yn ystod y cyfnod	563	549	175	1,287
Gwaredion	(167)	—	(56)	(223)
ar 31 Hydref 2001	<u>2,155</u>	<u>1,526</u>	<u>845</u>	<u>4,526</u>
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Hydref 2001	<u>4,675</u>	<u>1,035</u>	<u>536</u>	<u>6,246</u>
Ar 31 Hydref 2000	<u>4,109</u>	<u>728</u>	<u>547</u>	<u>5,384</u>

Dyledwyr a gwaith
cyfredol

12

	2001 £000	2000 £000
Dyledwyr ffioedd		
– Llywodraeth Leol	10,501	13,008
– Gwasanaeth Iechyd Gwladol	3,247	3,984
Gwaith cyfredol		
– Llywodraeth Leol	5,427	4,046
– Gwasanaeth Iechyd Gwladol	2,921	2,939
Costau pensiwn a ragdalwyd	993	1,101
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	6,796	7,578
Benthyciadau i gyflogeion	227	353
	<u>30,112</u>	<u>33,009</u>

Prisir Dyledwyr a Gwaith Cyfredol yn ôl eu gwerth sylweddoladwy amcangyfrifedig.

(i) Dyledion nad ydynt yn ddyledus of fewn blwyddyn sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod:

	2001 £000	2000 £000
Wedi'i gynnwys <i>Benthyciadau i gyflogeion</i> :		
– cynllum symud tŷ: blaendaliadau i aelodau o staff	<u>10</u>	<u>14</u>

Dyledwyr a gwaith cyfredol	12	(ii) (Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion neu ddyledion amheus (yn net yn erbyn y dyledwr priodol uchod)		
			2001	2000
			£000	£000
		Darpariaeth agoriadol	329	118
		Drwgddyledion a ddilewyd yn ystody y flwyddyn	(21)	—
		Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn	206	211
		Darpariaeth wrth gau	514	329

Mae'r Comisiwn yn mynd ati i adennill pob dyled, ac mae and yn darparu ar gyfer yr elfen honno lle mae'n amheus y caiff y ddyled ei hadennill. Rhoddir unrhyw ddyled sy'n cael ei dileu ac wedyn ei chasglu yn net yn erbyn y ddarpariaeth ychwanegol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Buddsoddiadau tymor byr **13** Delir adneuon arian parod gyda nifer o fanciau ar sail adnau tymor. 31 Ionawr 2002
yw'r dyddiad aeddfedu diweddaraf.

Credydwyr a thaliadau cronodig	14		2001	2000
			£000	£000
		Credydwyr	2,471	4,109
		Credydwyr eraill gan gynnwys Trethiant a Nawdd Cymdeithasol	1,872	3,848
		Tâl gwyliau	2,016	1,673
		Croniadau	13,220	11,685
			19,579	21,315

Mae'r tâl gwyliau a gronnwyd yn rhwymedigaeth ar gyfer yr hawl i wyliau a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ffordd y caiff ei gyfrifo yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a gallai hyn arwain at newid i'r balans a gariwyd yrnlaen.

Incwm gohiriedig	15		2001	2000
			£000	£000
		Incwm Ffioedd Gohiriedig	13,269	9,730
		Incwm Arolygu Gohiriedig	5,530	3,295
			18,799	13,025

Cronfeydd wrth gefn	16 Cronfa grant wrth gefn y llywodraeth	2001	2000
		£000	£000
	Grant Cyfalaf	<u>640</u>	<u>720</u>
	Cafodd y Comisiwn £800,000 ar gyfer darparu swyddfeydd fel rhan o'r grant a roddwyd gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau i ymgymryd â gwaith arolygu (nodyn 1(xi)).		
	Cronfeydd cyfalaf a refeniw wrth gefn		
		2001	2000
		£000	£000
	Cronfa gyfalaf wrth gefn		
	Llywodraeth Leol	1,580	1,580
	Iechyd	<u>2,154</u>	<u>2,154</u>
	Cyfanswm	<u>3,734</u>	<u>3,734</u>
	Cronfeydd refeniw wrth gefn		
	Llywodraeth Leol		
	Dygwyd ymalen	6,074	5,322
	Gwarged ar gyfer y flwyddyn	<u>275</u>	<u>752</u>
	Cronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Leol	<u>6,349</u>	<u>6,074</u>
	Iechyd		
	Dygwyd ymalen	1,702	1,956
	Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	<u>322</u>	<u>(254)</u>
	Cronfeydd Wrth Gefn Iechyd	<u>2,024</u>	<u>1,702</u>
	Cyfanswm Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn	<u>8,373</u>	<u>7,776</u>
	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn	<u>12,107</u>	<u>11,510</u>
	<hr/>		
Cysoni â	17	2001	2000
gwarged/(diffyg) ar gyfer		£000	£000
y flwyddyn i all-lif net o	Diffyg gweithredol	(415)	(268)
weithgareddau	Costau tybiannol	820	673
gweithredol	Costau net ymglyfrietha	(636)	(205)
	Dibrisiad	984	900
	Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr a gwaith cyfredol	2,897	(12,380)
	Cynnydd mewn credydwyr	<u>4,038</u>	<u>15,042</u>
		<u>7,688</u>	<u>3,762</u>

Cysoni all-lif arian parod 18 net â symudiadau mewn cronfeydd net		2001	2000
		£000	£000
	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod	(2,410)	1,370
	Arian parod a ddefnyddir i brynu adnoddau hylifol	9,000	—
	Newid mewn cronfeydd net	6,590	1,370
	Cronfeydd net ar 1 Tachwedd 2000	8,177	6,807
	Cronfeydd net ar 31 Hydref 2001	14,767	8,177

Dadansoddiad o newidiadau yn y cronfeydd net	19	Ar 1 Tachwedd 2000 £000	Llif arian parod £000	Ar 31 Hydref 2001 £000
		8,177	6,590	14,767

Cynllun pensiwn

20 (i) Cyfradd cyfraniadau

Mae gan y Comisiwn gynllun pensiwn galwedigaethol a weinyddir ganddo ef ei hun. Mae'n agored i bob un o'r cyflogeion parhaol a'r cyflogeion sydd ar contract tymor penodol o ddwy flynedd neu fwy. Cynllun budd-dâl diffiniedig ydyw ac fe'i hariennir yn rhannol gan yr aelodau yn seiliedig ar 6% o gyflogau pensiynadwy. Mae'r Comisiwn yn cyfrannu gweddill y gost sef cyfanswm o £9,575,000 ar gyfer 2001. (2000 – £5,538,000). Cytunir ar y gyfradd cyfraniadau hon sef 13.4.% o gyflogau pensiynadwy ar gyfer y cyfnod hyd 1 Tachwedd 2002.

(ii) Gwybodaeth actiwaraid

Ymgymerir â phrasiadau actiwaraid llawn bob blwyddyn. Roedd y prisiad diwethaf gan ddefnyddio'r dull uned amcanol ar 31 Mawrth 2001.

£286.0m oedd gwerth asedau net y cynllun ar y farchnad ar 31 Mawrth 2001 (£292.1m ar 31 Mawrth 2000) ac yn ôl y gwerth a aseswyd gan yr actiwari roedd hyn yn darparu ar gyfer 96% o'r budd-daliadau a gronnwyd i'r aelodau ar ôl cyfrif am y cynnydd disgwylidig mewn enillion yn y dyfodol. Y prif dybiannau ariannol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ac a ddyfynnwyd mewn termau real o'i gymharu â chwyddiant prisiau oedd:

	2001	2000
	%	%
cyfradd llog	3.33	3.33
cyfradd codiad mewn cyflogau	1.67	1.67
cyfradd twf difidendau	3.40	3.40

O dan safon gyfrifo newydd FRS17, y prif dybiannau ariannol i'w defnyddio gan yr actiwari fydd:

	2001
	%
cyfradd chwyddiant	2.1
cyfradd codiad mewn cyflogau	3.6
cyfradd ostgyngol ar gyfer rhwymedigaethau	5.5
cyfradd cynnydd mewn pensiynau a delir	2.1
cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig	2.1

Cynllun pensiwn

20 (iii) Gwybodaeth am werth ar y farchnad (Datgelu o dan FRS17)

	Cyfradd derbyniadau hirdymor disgwyliedig ar 31.10.01	Gwerth teg ar 31 Hydref 2001 £000
Ecwiti	6.5	249,421
Arall		—
Gwerth asedau net y cynllun ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn		<u>249,421</u>

(iv) Cysoni â gwarged y cynllun (Datgelu o dan FRS17)

	31 Hydref 2001 £000
Gwerth teg asedau'r cynllun (gweler iii uchod)	249,421
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	<u>(228,134)</u>
Ased pensiwn net	<u>21,287</u>

Gwybodaeth ychwanegol

(a) Rhoddwyd arian ychwanegol i'r Cynllun ar gyfer gweithgareddau archwilio'r Comisiwn yn ystod y cyfnod rhwng 1990 a 1996. Digwyddodd hyn pan roddodd y Comisiwn greydau gwasanaeth llawn i aelodau penodol o'r staff a drosglwyddodd iddo ym 1984–85 (yn bennaf o Adran yr Amgylchedd) ac ym mis Hydref 1990 (o'r Adran Iechyd). Cadwyd yr arian hwn ar wahân yn y Cynllun, ac yn 2000 mynegwyd y gwarged a oedd wedi codi ar yr arian hwn fel £6.4 miliwn. O dan SSAP24, mae'r gwarged hwn bellach wedi'i ychwanegu at gyfrifon y Comisiwn yn ystod bywyd aelodau perthnasol o'r staff a aseswyd yn actiwaraid. Mae gwariant pensiwn y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn hon yn cynnwys gostyngiad o £1.1 miliwn mewn costau (2000 – £1.2 miliwn) yn deillio o gyfran y gwarged actiwaraid eleni.

(b) Sefydlwyd rhwymedigaeth o weithgaredd arolygu'r Comisiwn sydd newydd ei ddatblygu oherwydd nifer fawr y staff a oedd wedi ymuno â'r sefydliad o gynlluniau'r sector cyhoeddus yn ystod y cyfnod sefydlu hwn. Fel gyda'r diffyg actiwaraid cychwynol ar ei weithgaredd archwilio, ac ar ôl ymgynghori â'r actiwari, mae'r Comisiwn yn bwriadu rhyddhau arian ychwanegol i fodloni'r rhwymedigaeth hon ac mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cronriad ar gyfer £2.62 miliwn mewn perthynas â thaliadau arian parod ychwanegol i'w gwneud i'r Cynllun Pensiwn.

Canlyniadau gweithredol ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf	21	Cyfanswm	12 mis hyd	12 mis hyd	12 mis hyd	12 mis hyd	12 mis hyd
			31 Hydref	31 Hydref	31 Hydref	31 Hydref	31 Hydref
			2001	2000	1999	1998	1997
			£000	£000	£000	£000	£000
		Incwm gweithredol	178,524	144,345	111,596	105,156	57,574
		Costau gweithredol	178,119	143,940	110,561	104,850	58,236
		Costau tybiannol	820	673	645	625	418
			(415)	(268)	390	(319)	(1,080)
		Ychwanegu'n ôl:					
		Costau tybiannol	820	673	645	625	418
		Llog net derbyniadwy (Costau net) adenillion sy'n deillio o ymgyfreitha	828	298	539	720	365
			(636)	(205)	(1,059)	(853)	(2,440)
		Gwarged/(diffyg)	597	498	515	173	(2,737)

Ymrwymadau ariannol 22 Ceir ymrwymadau refeniw ar 31 Flydref 2001 mewn perthynas â phrydlesau ceir annileadwy sy'n dod i ben:

	2001	2000
	£	£
Ymhen blwyddyn	355	1,600
Ymhen un i bum mlynedd	3,723	3,139
	4,078	4,739
Archwilian Dosbarth	2,926	3,128
Cyfarwyddiaethau'r Comisiwn	326	363
Gwasanaeth Arolygu	826	1,248

Ceid ymrwymadau blynyddol ar 31 Hydref 2001 i dalu rhenti o dan gytundebau prydles sy'n dod i ben:

	2001	2001	2001	2001
	£000	Nifer yr eiddo	£000	Nifer yr eiddo
ymhen blwyddyn	355	31	233	30
rhwng un a phum mlynedd	89	6	707	6
yn fwy no phum mlynedd	2,817	32	2,131	29
	3,261	69	3,071	65

Trefnir pob prydles adeilad yn enw'r Comisiwn Archwilio. Caiff rhai eu meddiannu gan naill ai'r Archwiliad Dosbarth neu'r Gwasanaeth Arolygu yn unig, a lle y bo'n briodol, caiff rhai eu meddiannu ar y cyd. Cynhelir adolygiadau o rent ar y rhan fwyaf o brydlesau adeiladau.

**Rhwymedigaethau
amodol**

- 23** Mae'r Comisiwn yn indemnio archwilwyr a benodir rhag unrhyw gostau yr eir iddynt mewn perthynas ag achos Llys sy'n deillio o arfer eu swyddogaethau cyfreithiol arbennig. Yn ogystal, mae'n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn archwilwyr mewn achosion cyfreithiol o'r fath ac y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hysgwyddo o dan delerau'r indemnïad. Mae'r syrniau yr eir iddynt mewn unrhyw flwyddyn, o ganlyniad i'r indemnïad hwn, yn dibynnu ar y cynnydd mewn achosion unigol ac felly ni ellir eu rhagweld na'u meintoli nes eu bod yn dod i'r amlwg.

Mae Tollau Tramor a Chartref EM wedi rhoi dyfarniad cychwynnol i'r Comisiwn nad yw ei arolygiadau gwerth gorau yn weithgareddau busnes at ddibenion TAW. Mae'r Comisiwn yn cynnal trafodaethau â Thollau Tramor a Chartref EM i gadarnhau'r driniaeth gyfrifo gywir ar gyfer y swyddogaeth hon ac mae'n parhau i godi ac adennill TAW ar y gweithgaredd hwn.

**Trafodion â phartïon
perthnasol**

- 24** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth aelod o'r Comisiwn, aelod o'r staff rheoli allweddol na pharti perthnasol arall ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau. Mae wedi ymgymryd â nifer o drafodion perthnasol â'r adran sy'n ei noddi a chyda'r Adran Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref.

Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol â pharagraff 11(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998

- 1 Bydd cyfrifon blynyddol y Comisiwn Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr (y cyfeirir ato fel "y Comisiwn" o hyn ymlaen yn y cyfarwyddyd cyfrifon hwn) yn rhoi darlun teg a chywir o'r incwm a'r gwariant a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a'r sefyllfa sydd ohoni ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn, caiff eu cyfrifon blynyddol eu paratoi yn unol ag:
 - (a) y gofynion cyfrifo a datgelu a roddir yn arweiniad y Trysorlys sef *Executive Non-Departmental Public Bodies Annual Reports and Accounts Guidance* (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2000), fel y cawsant eu diwygio neu eu gwella o bryd i'w gilydd, ac yn ddarostyngedig i Atodlen 1 i'r cyfarwyddyd hwn;
 - (b) unrhyw arweiniad arall y bydd y Trysorlys yn ei gyhoeddi o bryd i'w gilydd mewn perthynas â chyfrifon y mae'n ofynnol iddynt roi darlun teg a chywir;
 - (c) unrhyw ofynion datgelu penodol eraill gan yr Ysgrifennyddion Gwladol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru.

cyn belled ag y bydd y gofynion hyn yn briodol i'r Comisiwn ac mewn grym ar gyfer y flwyddyn y paratoir y cyfrifon ar ei gyfer, ac eithrio pan gytunir fel arall gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a chyda'r Trysorlys. Os digwydd hynny caiff yr eithriad ei ddisgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

- 2 Mae Atodlen 1 i'r cyfarwyddyd hwn yn egluro'r ffordd y mae gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmniau 1985 yn cael eu cymhwyso ynghyd â'r safonau cyfrifo ac mae hefyd yn nodi unrhyw eithriadau i ofynion safonol y Trysorlys. Nodir gofynion datgelu ychwanegol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 2.
- 3 Bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon blynyddol.
- 4 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cymryd lle'r cyfarwyddyd dyddiedig 6 Ionawr 1999.

Llofnodwyd drwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau

5 Tochwebb 2001

Richard Footitt

Swyddog gradd 5 yn yr Adran dros Drafnidiaeth,
Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau

Llofnodwyd drwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd

Jeff Tomlinson

Swyddog gradd 5 yn yr Adran Iechyd

Llofnodwyd drwy awdurdod Llywodraeth Cynulliad Cymru

Kate Cassidy

Swyddog gradd 5 dros Gynulliad Cenedlaethol
Cymru

Atodlen 1

- 1 Bydd gwariant yn y cyfrif incwm a gwariant yn cynnwys cost dybiannol cyfalaf, am 6% o'r asedau net cyfartalog yn ystod y flwyddyn. Caiff y swm hwn ei wrth-droi ar ôl y llinell sy'n dangos y gwarged neu'r diffyg ar gyfer y flwyddyn.
- 2 Bydd y rhagair a'r fantolen yn cael eu llofnodi a'u dyddio ar ran aelodau'r Comisiwn a chan y swyddog cyfrifo.

Atodlen 2

Gofynion datgelu ychwanegol

Bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei datgelu yn y cyfrifon blynyddol, fel isafswm, ac yn ychwanegol at y wybodaeth y mae'n ofynnol i'w datgelu o dan baragraffau 1 a 2 o'r cyfarwyddyd hwn.

Y rhagair

- 1 Polisi'r Comisiwn ynglyn ag arbed ynni, lleihau gwastraff a sicrhau bod cyn lleied o nwyon ty gwydr a phosibl yn cael eu gollwng.

Y cyfrif incwm a gwariant neu'r nodiadau iddo

- 2 (a) Yr incwm canlynol:
- (i) foedd
 - (ii) grantiau gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau
 - (iii) grantiau gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- (b) Y gwariant canlynol:
- (i) ffioedd archwilio i gwmnïau preifat
 - (ii) cymorth archwilio contract ar gyfer yr Archwiliad Dosbarth
 - (iii) symiau eraill sy'n daladwy i gwmnïau cyfrifwyr preifat
 - (iv) dyledion a ddilëwyd a symudiadau mewn darpariaethau ar gyfer ddrwgddyledion a dyledion amheus.

Y nodiadau i'r cyfrifon blynyddol

- 3 (a) Ar gyfer pob un o'r categorïau busnes canlynol, dadansoddiad o incwm rhwng incwm a gynhyrchir gan waith yr Archwiliad Dosbarth ac incwm a gynhyrchir gan waith cwmnïau cyfrifwyr preifat:
- (i) Archwiliadau Llywodraeth leol
 - (ii) Arolygiadau Gwerth Gorau Llywodraeth leol
 - (iii) Archwiliadau o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- (b) Datgelu incwm llywodraeth leol a gynhyrchir yng Nghymru yn ystod y flwyddyn a'r incwm iechyd a gynhyrchir yng Nghymru yn ystod y flwyddyn.
- (c) Ar gyfer gwaith a wneir o dan bob un o'r adrannau canlynol yn Neddf Comisiwn Archwilio 1998, datganiad sy'n dangos yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn:
- adran 28 (ardystio ceisiadau, derbyniadau ac ati.),
 - adran 29 (archwiliad o'r cyfrifon y cytunwyd amo),
 - adran 35 (astudiaethau ar gais y cyrff dan sylw a gaiff eu harchwilio) ac
 - adran 36 (astudiaethau ar gais cyrff addysgol).

- (d) Ar gyfer pob un o'r categorïau busnes canlynol, datganiad sy'n dangos y gronfa incwm a gwariant wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn, yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn a'r gronfa incwm a gwariant ar ddiwedd y flwyddyn.
- (i) awdurdodau Llywodraeth Leol
 - (ii) awdurdodau Gwasanaeth Iechyd.
- *(e) Adroddiad ar daliadau i'r prif weithredwr a phob aelod unigol o'r Comisiwn a phob uwch reolwr yn ystod y flwyddyn (gyda datgeliad ar wahân lle mae mwy nag un person wedi dal yr un swydd). Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion llawn am bob elfen o becyn cydnabyddiaeth pob person, megis ffioedd, cyflog, bonysau blynyddol, taliad ar derfyniad swydd, buddiannau trethadwy eraill, cyfraniadau pensiwn, a'r elfennau o'r rhain a roddir ar sail perfformiad (y caiff y sail ar gyfer mesur perfformiad ei hesbonio). Ar gyfer pob aelod o'r Comisiwn, bydd yr adroddiad hefyd yn dangos yr amser a roddwyd yn nhermau sawl diwmod y mis.
- *(f) Os caiff aelod o'r Comisiwn, y prif weithredwr neu uwch reolwr eu penodi ar gyfer tymor penodol neu os ydynt ar contract gwasanaeth tymor penodol, caiff y tymor ei nodi ynghyd â manylion unrhyw iawndal a ragnodwyd ar derfyniad swydd.
- *(g) Datganiad o'r hawliau pensiwn a enillwyd gan y prif weithredwr a chan bob aelod unigol o'r Comisiwn a phob uwch reolwr yn ystod y flwyddyn, wedi'u datgelu ar sail a argymhellir ar gyfer cyrff cyhoeddus anadrannol gan y Trysorlys, neu a argymhellir ar gyfer cwniniau gan Gyfadran yr Actiwariïaid neu Sefydliad yr Actiwariïaid.
- (h) Manylion cyflogeion heblaw aelodau'r Comisiwn, sy'n dangos:-
- (i) nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, gar gynnwys cyflogeion rhan-amser a staff a secondiwyd, wedi'i dadansoddi yn ôl categorïau priodol
 - (ii) cyfamwm y benthyciadau i gyflogeion
 - (iii) costau cyflogeion yn ystod y flwyddyn, gan ddangos ar wahân:
 - (1) cyflogau
 - (2) costau ymddeol yn gynnar
 - (3) costau nawdd cymdeithasol
 - (4) cyfraniadau i gynlluniau pensiwn
 - (5) taliadau i bensiynau nas ariannwyd
 - (6) costau pensiwn eraill.
 - (i) Dadansoddiad o adnoddau hylifol, fel y'u diffinnir gan safon gyfrifo FRS 1 (ddiwygiedig).
 - (j) Yn y nodyn am ddyledwyr, bydd rhagdaliadau a thaliadau ar gyfrif yn cael eu nodi ar wahân.

- (k) Manylion unrhyw drafodyn, trefniant neu gontract (heblaw contract gwasanaeth neu gontract cyflogaeth gyda'r Comisiwn) gan gynnwys trafodion hyd braich, a luniwyd gan y Comisiwn gyda pharti arall, sy'n werth dros £5,000, yr oedd gan aelod o'r Comisiwn, swyddog gweithredol, uwch gyflogai, neu berson â chysylltiad â'r unrhyw rai o'r uchod, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, fuddiant ariannol uniongyrchol yn y parti hwnnw yr hysbyswyd y Comisiwn ohono. At y dibenion hyn, mae uwch gyflogai yn golygu rhywun yr oedd ei daliadau yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys yr elfennau eraill y cyfeirir atynt yn isbaragraff 3(e) uchod) yn fwy na £50,000; a bydd person â chysylltiad fel y diffinnir yn adran 839 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1998 neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol ac yn cynnwys aelod o'r un cartref.
- (l) Datganiad o golledion a thaliadau arbennig yn ystod y flwyddyn, sy'n drafodion o'r fath na ellir tybio bod y Senedd wedi'u hystyried. Bydd cyfanswm y colledion a'r taliadau arbennig yn cael eu datgelu os byddant yn fwy na £100,000, gyda datgeliad ar wahân a manylion unrhyw symiau unigol sy'n fwy na £100,000. Caiff unrhyw golled neu daliad arbennig o £100,000 neu lai eu datgelu hefyd os ystyriir eu bod yn berthnasol yng nghyd-destun gweithrediadau'r Comisiwn.

* 3(e), 3(f) a 3(g). O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae angen i unigolion roi caniatâd i rai darnau o'r wybodaeth yn yr is-baragraffau hyn gael eu datgelu. Os gwrthodir caniatâd, dylid nodi hyn wrth ochr enw'r unigolyn.